Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 31.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Ngwynedd: sesiynau gwybodaeth ac ymgysylltu i rhanddeiliaid

Y Gronfa Ffyniant Cyffredin yw un o raglenni Llywodraeth y DU sy'n cymryd lle Cronfeydd yr UE. Bydd y Gronfa yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn Cymuned a Lle, Cynorthwyo Busnesau Lleol a Phobl a Sgiliau. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal sesiynau rhithiol ar 8 a 9 Mehefin 2022 i rannu gwybodaeth am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac i hel adborth ar flaenoriaethau lleol. Gwahoddir rhanddeiliaid lleol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd i fynychu'r sesiynau. Am fyw o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd27Mai2022

# TRETH: CThEM yn annog busnesau i symud i blatfform TG tollau newydd

Mae CThEM yn annog busnesau i symud i'w blatfform TG tollau newydd – y Gwasanaeth Datganiadau Tollau – i barhau i symud nwyddau i mewn ac allan o'r DU, ac yn ysgrifennu at fusnesau yn nodi'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd nawr i sicrhau y gallant barhau i fasnachu. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/hmrc-urges-businesses-to-move-to-new-customs-it-platform-now-to-continue-trading

# DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau Busnes Cymru – Mehefin

Mae gan Busnes Cymru nifer o ddigwyddiadau ar y gweill ym mis Mehefin i gynnwys gwella eich siawns o gael eich gweld ar-lein, marchnata digidol a throi eich diddordeb neu eich brwdfrydedd yn fusnes. Ceir gwybodaeth am holl ddigwyddiadau Busnes Cymru ar:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

# CYFLE: Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog – Caffi ar osod

Mae Canolfan Fenter Congl Meinciau yn cynnig gofod swyddfa ac adnoddau i fusnesau ym Mhen Llŷn. Mae gofod y caffi yn Congl Meinciau ar gael i'w osod ar hyn o bryd i rheini sydd yn chwilio am gyfle i redeg busnes eu hunain. Mae mwy o wybodaeth ar:

https://conglmeinciau.org.uk/cym/caffi-ar-osod/

# CYFLE: Cynnig Cymraeg

Mae Cynnig Cymraeg yn gydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg a roddir i sefydliadau sydd â chynllun clir i ddilyn, cynnal a datblygu eu gwasanaethau Cymraeg dros amser ac yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gwybod pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt. Mae hefyd yn dangos i gyrff ariannu'r sector cyhoeddus fod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni. Mae sawl cwmni yng Ngwynedd eisoes wedi derbyn statws Cynnig Cymraeg, mae rhestr i'w gweld ar:

https://bit.ly/3GB0gPL

Mae gwybodaeth am sut i gymryd rhan yng nghynllun Cynnig Cymraeg ar gael ar:

https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/busnesau-ac-elusennau/cynnig-cymraeg

# TECH: Gofod gwneud Ffiws Porthmadog

Mae gofod gwneud Ffiws yn cynnig cyfle i fusnesau ddysgu am amrywiaeth o offer modern a'u defnyddio. Cafodd rhannau o gadair farddol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yr wythnos hon eu hysgythru yn Ffiws Porthmadog gan ddefnyddio'r torrwr laser, gweler y fideo ar:

https://www.youtube.com/watch?v=mHrIFUDkFr0

I weld yr amserlen wythnosol, ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/amserlen-wythnosol-ffiws/

# DIGIDOL: Y Rhaniad Digidol yng Ngogledd Cymru – trafodaeth

Pwysigrwydd cysylltedd digidol ar gyfer Gogledd Cymru, i fusnesau a thrigolion y rhanbarth. yw'r drafodaeth rithwir ddiweddaraf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Gellir gweld 'The Digital Divide in North Wales' o Business News Wales ar:

https://businessnewswales.com/the-digital-divide-in-north-wales/

## RHEOLIADAU: Landlordiaid: mae cyfraith tai yn newid (Rhentu Cartrefi)

Mae canllawiau am gyfreithiau newydd, wedi eu cynllunio i newid y ffordd y mae landlordiaid yn rhentu eiddo o 1 Rhagfyr 2022, ar gael ar:

https://llyw.cymru/landlordiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru